# Cymunedau ac Adfywio Pwyllgor Craffu

## Adroddiad Blynyddol

2021 - 2022

Scrutiny
in Carmarthenshire

sirgar.llyw.cymru

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd 1

1. Cyflwyniad ... 3
2. Trosolwg o waith y Pwyllgor yn 2020/21 ... 3
   - 2.1 Nifer y Cyfarfordydd ... 3
   - 2.2 Y Flaenraglen Waith ... 3
   - 2.3 Monitro Perfformiad /Materion Strategol ... 4
   - 2.4 Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf ... 5
   - 2.5 Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Thorri Amodau Tenantiaeth 2021 ... 6
   - 2.6 Ardal Tyisha/Heol yr Orsaf ... 6
   - 2.7 Cartrefi Croeso ... 6
   - 2.8 Cynlluniau Adfer a Chyflawni Economaidd Canol Prif Drefi – Rhydaman, Caerfyrddin a Llanelli ... 7
   - 2.9 Adroddiad Monitro Blynyddol 2019/21 – Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin a Fabwysiadwyd ... 7
   - 2.10 Adroddiad Archwilio Cymru: Adfywio Canol Trefi yng Nghymru ... 8
   - 2.11 Platfform Actif Unrhyw Le, Chwaraeon a Hamdden Actif ... 8
   - 2.12 Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Cynnig Addysg Awyr Agored yn Sir Gaerfyrddin ... 8
   - 2.13 Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai a Phennu Rhenti Tai ar gyfer 2022/23 ... 9
   - 2.14 Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2022-25 – Rhaglen Buddsoddiadau Tai Sir Gaerfyrddin ... 9
   - 2.15 Adfywio a Datblygu Tai – Cynllun Cyflawni Pum Mlynedd ... 10
   - 2.15 Gorchwyl a Gorffen ... 10
   - 2.16 Ymweliadau Safle ... 10
   - 2.17 Sesiynau Datblygu ... 10
   - 2.18 Atgyfeiriadau ... 11
3. Heriau ... 11
4. Gwaith yn y Dyfodol ... 11
5. Cefnogi’r Swyddogaeth Graffu ... 11
6. Presenoldeb ... 12

## Rhagair y Cadeirydd



Fel Cadeirydd y Pwyllgor am flwyddyn y cyngor 2021/22, mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu - Cymunedau ac Adfywio am flwyddyn y cyngor 2021/22. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb cynhwysfawr o'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor yn ystod y cyfnod hwn ac yn rhoi cyfle i fyfyrio ar y gwaith hwnnw.

Unwaith eto mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn gyfnod heriol i'r Cyngor oherwydd pandemig Covid a chredaf fod y Pwyllgor hwn wedi parhau i chwarae rôl adeiladol wrth graffu ar berfformiad a chyfrannu at bolisïau a phenderfyniadau allweddol y Cyngor.

Daeth Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) (Diwygio) 2020 i rym ar 22 Ebrill 2020 gan ganiatáu i'r Awdurdod wneud trefniadau i gynnal cyfarfodydd o bell. Roedd hyn yn amlwg yn her ynddo'i hun o ran newid y modd roeddem yn gweithio, yn aelodau ac yn swyddogion etholedig, wrth addasu i dechnoleg newydd er mwyn gallu cynnal cyfarfodydd o bell, ond roeddem yn gallu trafod a chraffu ar amrywiaeth eang o bynciau a chwarae rhan adeiladol wrth graffu ar berfformiad a chyfrannu at bolisïau a phenderfyniadau allweddol y Cyngor. Roedd y rhain yn cynnwys yr adroddiadau monitro safonol a rheolaidd yn ogystal â pholisïau a strategaethau newydd a gyflwynwyd gan y Cyngor Sir.

Mae'n siŵr y bydd y flwyddyn sydd i ddod yn heriol eto wrth i'r Cyngor adfer wedi effaith a goblygiadau parhaus y Coronafeirws. Ond rwy'n hyderus y bydd y Pwyllgor yn parhau i ganolbwyntio ar sut mae gwella gwasanaethau'n effeithiol ac yn effeithlon ac yn cael effaith gadarnhaol ar y canlyniadau i drigolion Sir Gaerfyrddin. Rwy'n siŵr y bydd y Pwyllgor yn parhau i weithio'n agos gydag Uwch-reolwyr a Staff y Cyngor i sicrhau bod 2022/23 yn flwyddyn gynhyrchiol.

Hoffwn ddiolch hefyd i holl aelodau'r Pwyllgor am eu cyfraniadau a'u hymroddiad yn ystod 2021/22.

**Y Cynghorydd Fozia Akhtar**
**Cadeirydd y Pwyllgor Craffu - Cymunedau ac Adfywio (2021/22)**

## 1. Cyflwyniad

Mae Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl bwyllgorau craffu *"baratoi adroddiad blynyddol sy'n egluro gweithgareddau'r Pwyllgor dros y flwyddyn flaenorol."*

Prif nod yr adroddiad yw pwysleisio'r gwaith sydd wedi'i wneud gan y Pwyllgor Craffu - Cymunedau yn ystod blwyddyn y cyngor 2021/22. Mae'n bosibl hefyd y bydd y ddogfen yn hwyluso trafodaethau am eitemau eraill a allai gael eu cynnwys mewn rhaglenni gwaith yn y dyfodol.

Cadeirydd y Pwyllgor oedd y Cynghorydd Fozia Akhtar ac roedd yn cynnwys 13 o Aelodau Etholedig. Darperir cymorth i'r Panel gan y Tîm Gwasanaethau Democrataidd a swyddogion eraill y Cyngor pan fo angen.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu trosolwg o waith y Pwyllgor Craffu - Cymunedau yn ystod blwyddyn y Cyngor 2021/22. Mae'n caniatáu i Aelodau ystyried llwyddiannau'r flwyddyn a nodi beth a weithiodd yn dda ac ymhle y gellid gwneud gwelliannau. Mae'r dadansoddiad hwn yn hanfodol i ddatblygu'r broses graffu

## 2. Trosolwg o waith y Pwyllgor yn 2021/22

### 2.1 Nifer y Cyfarfodydd

Cynhaliodd y Pwyllgor Craffu bum cyfarfod ffurfiol ym mlwyddyn y Cyngor 2021/22.

### 2.2 Y Flaenraglen Waith

Mae'r Pwyllgor Craffu yn datblygu ei Flaenraglen Waith ei hun, ac, ar y cyfan, roedd agendâu'r cyfarfodydd yn cyfateb i'r rheiny a amlinellwyd yn y Flaenraglen Waith, a gadarnhawyd gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 1 Gorffennaf 2021.

Roedd y Flaenraglen Waith yn seiliedig yn bennaf ar y meysydd allweddol a nodwyd fel amcanion yn y Strategaeth Gymunedol Integredig a'r Cynllun Gwella ynghyd ag eitemau safonol megis adroddiadau monitro perfformiad a chyllideb, adroddiadau monitro cynlluniau gweithredu a cheisiadau penodol gan y Pwyllgor Craffu ei hun. Gofynnwyd hefyd am adroddiadau ychwanegol gan y Pwyllgor Craffu yn ystod y flwyddyn a newidiwyd y Flaenraglen Waith yn unol â hynny.

Drwy ddatblygu'r cysyniad o Flaenraglen Waith a'r broses ar gyfer cytuno arni, mae modd i bob pwyllgor craffu benderfynu ar ei agenda waith ei hun. Mae manteision y dull hwn o weithio wedi arwain at wella'r drafodaeth a'r cyfraniadau yn ystod cyfarfodydd y pwyllgorau craffu.

Roedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi lle blaenllaw i gynaliadwyedd hirdymor o ran y modd y caiff gwasanaethau

cyhoeddus eu dylunio a'u cyflwyno ac mae'n rhoi pwyslais ar gyrff cyhoeddus i weithio mewn partneriaeth â'i gilydd a'r cyhoedd er mwyn atal problemau a mynd i'r afael â nhw.

Dyma brif gyfrifoldebau'r Pwyllgor Craffu - Cymunedau ac Adfywio:

- Tai – Cymdeithasol a Sector Preifat
- Polisi Cynllunio
- Adfywio yn cynnwys datblygu ffisegol a gwledig
- Datblygu Economaidd
- Rhaglenni Ewropeaidd a Rhaglenni sy'n cael eu Hariannu'n Allanol
- Llyfrgelloedd
- Y Celfyddydau a Theatrau
- Amgueddfeydd ac Archifau
- Cyfleusterau Cefn Gwlad
- Chwaraeon, Hamdden ac Adloniant

Er mwyn ategu'r gwaith a wnaed yn ystod cyfarfodydd ffurfiol, mae'r Pwyllgor hefyd yn cyflawni swyddogaethau craffu eraill megis Gorchwyl a Gorffen, ymweliadau â sefydliadau a ddaw o fewn ei gylch gwaith ynghyd â sesiynau datblygu i aelodau.

## 2.3 Monitro Perfformiad / Materion Strategol

Adroddiadau Monitro Perfformiad - Un o rolau pennaf y Pwyllgorau Craffu yw monitro perfformiad y gwasanaethau a'r swyddogaethau a ddaw o fewn eu cylch gwaith. Gwnânt y gwaith hwn yn bennaf drwy ystyried adroddiadau monitro perfformiad ac adroddiadau monitro cynlluniau gweithredu amrywiol. Mae'r adroddiadau monitro perfformiad yn rhoi darlun cytbwys o'r perfformiad ar draws y meysydd gwasanaeth perthnasol. Cafodd y Pwyllgor Craffu - Cymunedau ac Adfywio yr Adroddiadau Monitro Perfformiad ynghylch Amcanion Llesiant 2020/21 y Cyngor ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 30 Medi 2021 yn ei gyfarfodydd a gynhaliwyd ar 30 Medi 2021 (Chwarter 1) ac ar 14 Rhagfyr 2021 (Chwarter 2). Nodwyd yn y cyfarfodydd mai 2021/22 oedd y flwyddyn gyntaf y byddai'r Cyngor yn ei hunanarfarnu ac yn adrodd arni o dan delerau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, yn enwedig Rhan 6 felly sy'n ymwneud â Pherfformiad a Llywodraethu

Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin 2020/21 - Fel rhan o'i rôl o fonitro perfformiad, cafodd y Pwyllgor wybodaeth berthnasol am strategaethau a chynlluniau allweddol y Cyngor. Un o'r meysydd allweddol sy'n ymwneud â gwaith rheoli'r Cyngor yw monitro'r cynnydd a wnaed bob blwyddyn yn erbyn amcanion llesiant y Cyngor y manylir arnynt yn Adroddiad 2020/21. Gan gofio hynny, ym mis Gorffennaf 2021, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r Adroddiad Blynyddol a oedd yn manylu ar y cynnydd a'r newidiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn ar gyfer pob un o 15 Amcan Llesiant y Cyngor, a fabwysiadwyd ym mis Mehefin 2018, fel y'u diwygiwyd, i adlewyrchu blaenoriaethau sy'n datblygu ac effaith y pandemig Coronafeirws (Covid-19), Brexit a newid yn yr hinsawdd. Er yr ystyriwyd ei bod yn arfer da sicrhau bod y Strategaeth Gorfforaethol wedi'i

diweddaru a bod adnoddau wedi'u dyrannu i flaenoriaethau, nododd y Pwyllgor fod yn rhaid cyhoeddi'r Amcanion Gwella yn flynyddol yn unol â Deddf Llywodraeth Leol (Mesur Cymru 2009) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Canlyniad:**
Yn ei gyfarfod ym mis Medi 2021 argymhellodd y Cabinet i'r Cyngor y dylid cymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2020/21, a fabwysiadwyd wedyn gan y Cyngor ym mis Hydref 2021.

Cynlluniau Busnes Drafft Adrannol 2022-2023 – Ym mis Chwefror 2022, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i Gynlluniau Busnes Drafft Adrannol 2022 - 2023 ar gyfer y meysydd hynny sydd o fewn maes gorchwyl yr Adran Gymunedau ac Adran y Prif Weithredwr gan roi crynodeb o'r mesurau a'r camau gweithredu allweddol y mae eu hangen i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Gorfforaethol ac Amcanion Llesiant y Cyngor. Rhoddodd hyn gyfle i'r Pwyllgor ystyried y blaenoriaethau a amlinellir ar gyfer yr adrannau a gwneud sylwadau yn eu cylch.

Nododd y Pwyllgor hefyd fod y gwaith o lunio Cynllun Busnes Adran yr Amgylchedd wedi'i ohirio yn dilyn ymadawiad y Cyfarwyddwr phenodiad dau gyfarwyddwr dros dro.

**Canlyniad:**
Derbyniodd y Pwyllgor Gynlluniau Busnes Adrannol Cymunedau a'r Prif Weithredwr sydd o fewn ei faes gorchwyl.

Camau Gweithredu ac Atgyfeiriadau - Yn ystod blwyddyn y cyngor gellir gwneud ceisiadau gan aelodau'r Pwyllgor am eitemau ychwanegol i'w cynorthwyo i gyflawni eu rôl o graffu. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am Gamau Gweithredu ac Atgyfeiriadau'n cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor ddwywaith y flwyddyn gan ddarparu diweddariad ynghylch y cynnydd mewn perthynas â'r ceisiadau hyn.

## 2.4 Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf

Adroddiadau Monitro'r Gyllideb – Cafodd y Pwyllgor adroddiadau chwarterol ynghylch y cyllidebau cyfalaf a refeniw adrannol a chorfforaethol. Oherwydd bod yr agenda'n fawr, cafodd adroddiad mis Ionawr 2022 ei anfon yn uniongyrchol at aelodau'r Pwyllgor dros e-bost. Galluogai'r adroddiadau hyn yr aelodau i fonitro ac i herio'r gwariant ym mhob maes gwasanaeth a'r cynnydd a wnaed o ran unrhyw waith cyfalaf.

Ymgynghori ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2022/23 i 2024/25 – Yn ogystal â monitro'r cyllidebau refeniw a chyfalaf, ymgynghorwyd â'r Pwyllgor hefyd ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2022/23 i 2024/25. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r Strategaeth Cyllideb Refeniw arfaethedig ar gyfer 2022/23 i'r Pwyllgor, ynghyd â ffigurau dangosol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2023/24 a 2024/2025.

**Canlyniad:**
Fel rhan o'r ymgynghoriad eang a gynhaliwyd ar Strategaeth Cyllideb Refeniw 2022/23 i 2024/25, ystyriodd y Pwyllgor Craffu - Cymunedau ac Adfywio y Strategaeth yn ei gyfarfod ym mis Ionawr a chymeradwyodd gynigion y gyllideb, fel y'u cyflwynwyd. Yn dilyn hynny cafodd Strategaeth y Gyllideb ei mabwysiadu gan y Cabinet a'r Cyngor yn eu cyfarfodydd ym mis Mawrth 2022, yn amodol ar wneud rhai newidiadau a lleihau ardoll arfaethedig y dreth gyngor.

## 2.5 Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Thorri Amodau Tenantiaeth 2021

Ym mis Gorffennaf 2021, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i gynigion ar gyfer mabwysiadu polisi a oedd yn manylu ar y dull a fabwysiedir gan y Tîm Cymdogaethau o fewn Diogelu'r Amgylchedd ar gyfer prosesu cwynion ynghylch Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Thorri Amodau Tenantiaeth a'u trefn blaenoriaeth yn y tri chategori canlynol:-

- Categori A – Achosion brys neu ddifrifol - ymdrin â'r rhain cyn gynted ag y bo'n bosibl (anelu at gysylltu o fewn 24 awr)
- Categori B - Materion Difrifol - anelu at gysylltu cyn pen 5 diwrnod gwaith
- Categori C - Lefel Isel - anelu at gysylltu cyn pen 10 diwrnod gwaith.

**Canlyniad:**
Argymhellodd y Pwyllgor fod y polisi'n cael ei fabwysiadu ac wedyn cymeradwywyd hynny gan Gabinet y Cyngor yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf 2021

## 2.6 Ardal Tyisha/Heol Yr Orsaf

Ym mis Awst 2022, mewn cyfarfod arbennig, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad ar gynigion y Cyngor ar gyfer Ardal Tyisha/Heol yr Orsaf yn Llanelli. Roedd yr adroddiad yn manylu ar y gwaith a wnaed hyd yma, gan gynnwys dymchwel y fflatiau gwag yn y 4 "Tŷ", ynghyd ag amlinellu blaenoriaethau allweddol eraill ar gyfer symud y rhaglen newid yn ei blaen. Roedd un o amcanion allweddol y cynnig yn anelu at ddatblygu cynllun trawsnewidiol i fynd i'r afael â'r materion sylweddol sy'n effeithio ar gymuned Tyisha a gwneud yr ardal yn lle bywiog i fyw ac i weithio ynddi.

**Canlyniad:**
Daeth y cynigion gerbron y Pwyllgor ac fe'u derbyniwyd, ac yna fe'u cymeradwywyd gan y Cabinet yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar y 13 Medi 2021.

## 2.7 Cartrefi Croeso

Ym mis Awst 2022, mewn cyfarfod arbennig, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad ar ddyfodol Cartrefi Croeso, Cwmni Tai Lleol y Cyngor a sefydlwyd yn 2018 i gefnogi'r gwaith o ddarparu tai fforddiadwy i'w gwerthu a'u rhentu er mwyn sicrhau bod amrywiaeth o ddewisiadau tai ar gael i ddiwallu anghenion tai fforddiadwy a dyheadau o gefnogi twf economaidd ac adfywio strategol.

Roedd yr adroddiad yn manylu ar y cynnydd a wnaed gan y cwmni hyd yma a'r cynigion i'r Cyngor ymgymryd â'i rolau yn y dyfodol a thrwy hynny'n ei wneud yn gwmni 'segur'. Roedd y cynnig hwnnw wedi codi oherwydd newidiadau a gyflwynwyd ers iddo gael ei sefydlu, ac roedd un ohonynt yn ymwneud â phenderfyniad Llywodraeth Cymru i godi'r cyfyngiadau benthyca ar y Cyfrif Refeniw Tai, gan alluogi'r Cyngor i fod yn fwy uchelgeisiol ac i feithrin y sgiliau a'r capasiti priodol o ran nifer y tai y gallai eu darparu

**Canlyniad:**
Daeth y cynigion gerbron y Pwyllgor ac fe'u derbyniwyd, ac yna fe'u cymeradwywyd gan y Cabinet yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar y 13 Medi 2021.

## 2.8 Cynlluniau Adfer Economaidd Canol Prif Drefi – Rhydaman, Caerfyrddin a Llanelli

Ym mis Medi 2021, ymgynghorwyd â'r Pwyllgor ynghylch cynigion y Cyngor i gyflwyno Cynlluniau Adfer a Chyflawni Economaidd, ar ôl Covid, ar gyfer y tair prif dref yn Sir Gaerfyrddin sef Rhydaman, Caerfyrddin a Llanelli. Mae'r cynlluniau'n nodi effaith Covid, gan dynnu sylw at faterion/cyfleoedd allweddol a darparu fframwaith cyflawni o ymyriadau pwrpasol ar gyfer pob canolfan. Rhagwelwyd y byddai'r cynlluniau yn eiddo i'r rhanddeiliaid yn Nhasglu/Fforwm priodol y tair tref ac yn cael eu cyflawni ganddynt, gyda'r Cyngor yn gweithio gyda darpar gyllidwyr yn Llywodraeth Cymru ac yn San Steffan i ysgogi cyllid pan fyddai cyfleoedd yn codi, a defnyddio cyllid corfforaethol a nodwyd o fewn rhaglen gyfalaf y Cyngor i hwyluso gweithrediad y tri chynllun.

**Canlyniad:**
Cymeradwyodd y Pwyllgor y Cynlluniau Adfer a fabwysiadwyd gan y Cabinet ar 17 Ionawr 2022.

## 2.9 Adroddiad Monitro Blynyddol 2019/21 - Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin a Fabwysiadwyd

Ym mis Medi, cafodd y Pwyllgor Adroddiad Monitro Blynyddol 2019/21 ar Gynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Sir Gaerfyrddin, a luniwyd yn unol â'r gofynion statudol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru, a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor erbyn 31 Hydref. Roedd yr adroddiad yn cwmpasu cyfnod estynedig o ddwy flynedd gan adlewyrchu effaith Covid-19 a'i gyfyngiadau cysylltiedig ar gofnodi data, argaeledd data ac adrodd ar ddata.

Wrth ystyried yr adroddiad cododd y Pwyllgor nifer o faterion, gan gynnwys:

- yr effaith roedd rheoliadau cyfredol CNC ynghylch ffosffadau ar ansawdd dŵr yn ei chael ar ddatblygu/adfywio, nid yn unig yn Sir Gaerfyrddin ond ledled Cymru
- y ddarpariaeth yn y CDLl ar gyfer safleoedd swyddogol ychwanegol i sipsiwn ac i deithwyr yn y Sir

- effaith Brexit a Covid ar gost gynyddol deunyddiau adeiladu ar gyfer y diwydiant adeiladu  a'r effaith bosibl ar ddarparu tai fforddiadwy

**Canlyniad:**
Cafodd yr adroddiad ei gymeradwyo i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru ac wedyn cafodd ei fabwysiadu gan y Cabinet a'r Cyngor yn eu cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 11 Hydref a 10 Tachwedd 2022

## 2.10 Adroddiad Archwilio Cymru: Adfywio Canol Trefi yng Nghymru

Ym mis Rhagfyr, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i Adroddiad Cenedlaethol Archwilio Cymru ar Adfywio Canol Trefi yng Nghymru a gyflwynodd 6 argymhelliad i bob lefel o lywodraeth yng Nghymru helpu i wneud canol trefi'n gynaliadwy, ac roedd argymhelliad 4 a 6 yn benodol yn ymwneud â rôl llywodraeth leol.

Gwnaeth y Pwyllgor sylwadau ar nifer o feysydd yn yr adroddiad a oedd o arwyddocâd cenedlaethol a lleol. Roedd y rheiny'n cynnwys Menter 10 Tref y Cyngor, darparu cyllid cyfalaf, mwy o gystadleuaeth gan siopa ar y rhyngrwyd a symleiddio prosesau grant

**Canlyniad:**
Derbyniwyd yr adroddiad a chymeradwywyd Cynllun Gweithredu'r Cyngor a luniwyd mewn ymateb i'r adroddiad.

## 2.11 Platfform Actif Unrhyw Le, Chwaraeon a Hamdden Actif

Ym mis Rhagfyr, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad ar ddatblygiadau yn yr Is-adran Gwasanaethau Hamdden a oedd yn flaengar o ran datblygu digidol yn y sector hamdden drwy alluogi'r boblogaeth i gael mynediad at weithgarwch digidol a chymryd rhan ynddo, a hynny ar draws y cwrs bywyd a'r sbectrwm iechyd nid yn unig yn Sir Gaerfyrddin ond yng Nghymru, y DU a'r Byd. Er nad oedd bwriad cymryd lle gweithgarwch mewn adeiladau, prif nod y platfform oedd darparu mwy o gymysgedd a hyblygrwydd o ran dewis/darpariaeth i bobl ddod yn fwy egnïol

**Canlyniad:**
Derbyniwyd yr adroddiad.

## 2.2 Y wybodaeth ddiweddaraf am y Cynnig Addysg Awyr Agored yn Sir Gaerfyrddin

Ym mis Rhagfyr, ymgynghorwyd â'r Pwyllgor ynghylch adroddiad a oedd yn rhoi cyd-destun i'r ddarpariaeth Addysg Awyr Agored yn Sir Gaerfyrddin ar

hyn o bryd, gan gynnwys adolygiad o asedau, adnoddau ariannol, gweithgarwch staffio a sut y byddai angen i'r gwasanaeth ailfodelu a datblygu yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir yn unol â'r adnoddau presennol.

Pwysleisiodd y Pwyllgor unwaith eto ei gefnogaeth i gadw ac i ddatblygu'r cyfleuster presennol yng Nghyfleuster Addysg Awyr Agored Pentywyn

**Canlyniad:**
Mabwysiadwyd yr adroddiad gydag argymhelliad ychwanegol i fynd ar drywydd pob cyfle i gael grantiau i ariannu gwelliannau i Ganolfan Addysg Awyr Agored Pentywyn.

## 2.13 Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai a Phennu Rhenti Tai ar gyfer 2022/23

Ym mis Ionawr, ystyriodd y Pwyllgor y Cyfrif Refeniw Tai (HRA) a Phennu Rhenti Tai ar gyfer 22/23, a gyflwynwyd fel rhan o'r broses ymgynghori ynghylch y gyllideb. Roedd yr adroddiad yn adlewyrchu'r cynigion diweddaraf a oedd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai, sef y prif offeryn cynllunio ariannol ar gyfer darparu Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy (STSG+).

Cymeradwyodd y Pwyllgor yr adroddiad a'r cynnydd arfaethedig mewn rhent i'w cyflwyno er ystyriaeth y Cabinet a'r Cyngor fel rhan o'r cynnig ynghylch y gyllideb i'r Cyngor.

**Canlyniad:**
Mabwysiadwyd y cynigion o ran pennu Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai a Phennu Rhenti Tai gan y Cabinet a'r Cyngor yn eu cyfarfodydd ym mis Chwefror a mis Mawrth, 2022.

## 2.14 Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2022-25 - Rhaglen Buddsoddiadau Tai Sir Gaerfyrddin

Ym mis Chwefror, bu'r Pwyllgor yn ystyried Cynllun Busnes 2022-25 y Cyfrif Refeniw Tai - Cynllun Buddsoddiadau Tai Sir Gaerfyrddin, a phum prif thema'r rhain oedd:

- Cefnogi Tenantiaid a Phreswylwyr
- Buddsoddi mewn Cartrefi a'r Cyffiniau
- Darparu rhagor o dai
- Datgarboneiddio'r Stoc Dai
- Yr Economi Leol, Budd i'r Gymuned a Chaffael

Cododd y Pwyllgor nifer o faterion ynghylch yr adroddiad a oedd yn cynnwys: lefelau tai gwag, effaith Rheoliadau Ffosffad CNC ar Ddatblygu ac Adfywio o

fewn y Sir. Cymeradwyodd y Pwyllgor yr adroddiad i'w gyflwyno er ystyriaeth y Cabinet a'r Cyngor fel rhan o'r cynnig ynghylch y gyllideb i'r Cyngor.

**Canlyniad:**
Cafodd yr adroddiad ei dderbyn gan y Cabinet a'r Cyngor yn eu cyfarfodydd ym mis Chwefror a mis Mawrth, 2022.

## 2.15 Adfywio a Datblygu Tai - Cynllun Cyflawni Pum Mlynedd

Ym mis Chwefror, bu'r Cabinet yn ystyried Cynllun Cyflawni Pum Mlynedd a oedd yn nodi cynlluniau'r Awdurdod i helpu i adeiladu dros 2,000 o dai ychwanegol ar draws y Sir yn ystod y pum mlynedd nesaf. Byddai'r cynllun yn adeiladu ar lwyddiant y cynlluniau darparu tai fforddiadwy presennol, yn cefnogi twf economaidd drwy fuddsoddi dros £300m mewn cymunedau gan gefnogi'n uniongyrchol y camau gweithredu yn y Cynllun Adfer Economaidd, gan gefnogi Busnes, pobl a lleoedd

Argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Cabinet a'r Cyngor fabwysiadu'r Cynllun

**Canlyniad:**
Mabwysiadwyd y Cynllun gan y Cabinet a'r Cyngor yn eu cyfarfodydd ym mis Chwefror a mis Mawrth.

## 2.15 Gorchwyl a Gorffen

Ni wnaeth y Pwyllgor gynnal ymarfer Gorchwyl a Gorffen yn ystod 2021/22

## 2.16 Ymweliadau Safle

Er bod nifer o ymweliadau safle wedi'u cynnwys ym Mlaenraglen Waith 2021/22 y Pwyllgor, nid oedd y Pwyllgor wedi gallu cynnal unrhyw un ohonynt oherwydd y cyfyngiadau parhaus yn sgil Covid-19.

## 2.17 Sesiynau Datblygu

Cynhaliodd y Pwyllgor un sesiwn datblygu penodol i'r gwasanaeth yn ystod 2020/21 ynghylch y Fersiwn Drafft o'r Strategaeth Hamdden er mwyn helpu i lywio'i ddatblygiad cyn i'r Cyngor ei ystyried yn 2022.

Cynhaliwyd y sesiynau datblygu/seminarau canlynol i'r holl aelodau yn ystod 2021/22:-

- Adeiladau Hanesyddol ac Ymrwymiad Carbon Sero Net Sir Gaerfyrddin - Mai
- Yr Economi Gylchol ac Effeithlonrwydd Adnoddau - Mehefin
- Hyfforddiant Microsoft Teams ar gyfer cyfarfodydd ar-lein - nifer o sesiynau - Mehefin
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda – Sesiwn Briffio Covid - Medi

- Seminar Gwasanaethau Cynllunio - Medi
- Gweithdy Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg - Hydref
- Sesiwn Briffio Ffosffadau'r Gwasanaeth Cynllunio - Tachwedd
- Trosolwg o gynigion y Gyllideb – seminar ymgynghori ynghylch y gyllideb - Ionawr
- Cysylltedd Digidol - Chwefror

Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd sawl seminar cyllideb yn ystod mis Ionawr fel rhan o broses ymgynghori'r Cyngor ar Gyllideb Refeniw 2022/23 a'r rhaglen gyfalaf bum mlynedd.

### 2.18 Atgyfeiriadau

Ym mis Gorffennaf 2021, yn rhan o'i drafodaeth ynghylch Adroddiad Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2020/21, cododd y Pwyllgor fater a oedd yn ymwneud â'r diffyg palmentydd ar briffyrdd cyhoeddus i hwyluso cerdded diogel, gyda dros 300 o geisiadau am balmentydd heb eu penderfynu yn eu cylch ar hyn o bryd, a chyfeiriodd hyn at y Pwyllgor Craffu - yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd.

**Canlyniad:**
Yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2022, derbyniodd y Pwyllgor Craffu - yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd adroddiad ar ddarparu llwybrau troed a nododd fod y ddarpariaeth o £250,000 o ran y gyllideb gyfalaf yn golygu bod modd darparu hyd at dri chynllun y flwyddyn.

## 3. Heriau

Un o'r heriau sylweddol a wynebodd y Sir yn 2021/22 oedd effaith pandemig Covid ar ddarparu gwasanaethau i drigolion Sir Gaerfyrddin.

## 4. Gwaith yn y Dyfodol

Mae'r Pwyllgor wedi gwneud cynnydd sylweddol a bydd yn parhau i ganolbwyntio ar bynciau lle bydd cyfraniadau'r Aelodau'n arwain at ganlyniadau cadarnhaol i ysgogi gwelliannau yn y gwasanaeth. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i gyflawni proses fwy syml o graffu, er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o amser y cyfarfodydd ynghyd â'r manteision o gynnal rhag-gyfarfodydd.

Bydd gwaith y Pwyllgor ar gyfer y dyfodol yn cael ei ystyried fel rhan o sesiwn cynllunio'r Flaenraglen Waith. Bydd y Flaenraglen Waith yn parhau i gael ei monitro yn ystod y flwyddyn, ynghyd â Blaenraglen Waith y Bwrdd Gweithredol.

## 5. Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu

Mae’r cymorth a roddir i swyddogaeth graffu Cyngor Sir Caerfyrddin yn cael ei ddarparu gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd yn yr Is-adran Gweinyddiaeth a’r Gyfraith yn Adran y Prif Weithredwr.

Mae’r cymorth a roddir i’r swyddogaeth graffu yn cynnwys y canlynol:

- Llunio agendâu yn unol â'r Flaenraglen Waith a'u dosbarthu ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu o leiaf 4 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod;
- Darparu cymorth a chyngor cyfansoddiadol i'r Pwyllgorau Craffu ac i aelodau'r Pwyllgorau hynny yn ogystal â llunio cofnodion eu cyfarfodydd a sicrhau bod materion sy'n codi o'r cyfarfodydd hynny yn cael eu gweithredu;
- Rhoi cymorth a chyngor mewn perthynas â swyddogaethau Pwyllgorau Craffu'r Cyngor i aelodau gweithredol ac anweithredol y Cyngor a'i swyddogion;
- Rheoli datblygiad strategol y swyddogaeth Graffu yn Sir Gaerfyrddin trwy ymwneud â rhwydweithiau a mentrau Craffu cenedlaethol a rhanbarthol, cefnogi Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu, a chyfarfodydd y Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion gyda'r Bwrdd Gweithredol;
- Rhoi cyngor a chymorth o ran y gwaith o weithredu gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 wrth i'r canllawiau gael eu cyhoeddi;
- Rheoli cydlyniad a datblygiad blaenraglenni gwaith y Pwyllgorau Craffu ar y cyd ag aelodau'r Pwyllgorau Craffu;
- Rheoli a chydlynu gwaith adolygu'r swyddogaeth Graffu, gan gynnwys gweinyddu grwpiau gorchwyl a gorffen ym maes craffu, cynorthwyo i lunio adroddiadau ar y cyd â'r grwpiau, a chynorthwyo i weithredu ac i fonitro'r adolygiadau a gwblhawyd;
- Cynorthwyo â rhaglen datblygu aelodau'r pwyllgorau craffu.

I gael rhagor o wybodaeth am graffu yn Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys blaenraglenni gwaith, adroddiadau gorchwyl a gorffen ac adroddiadau blynyddol, ewch i wefan y Cyngor Sir: www.sirgar.llyw.cymru/craffu

I gysylltu â'r Uned Gwasanaethau Democrataidd, ffoniwch 01267 224028 neu anfonwch neges e-bost at craffu@sirgar.gov.uk

## 6. Presenoldeb

Mae presenoldeb Aelodau'r Pwyllgor Craffu - Cymunedau ac Adfywio yn ystod blwyddyn gyngor 2021/22 yn cael ei ddangos yn y tabl isod. Cynhaliwyd cyfanswm o 5 cyfarfod rhwng mis Mai 2021 a mis Ebrill 2022 yn unol â'r 8 a drefnwyd.

| Aelod y Pwyllgor Craffu | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd | % |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd F. Akhtar | 4 | 80 |
| Y Cynghorydd Ann. Davies | 5 | 100 |
| Y Cynghorydd Anthony Davies | 5 | 100 |
| Y Cynghorydd H. Davies | 5 | 100 |

| | | |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd C. Evans | 4 | 80 |
| Y Cynghorydd R. Evans | 5 | 100 |
| Y Cynghorydd J. Gilasbey | 5 | 100 |
| Y Cynghorydd B. Jones | 5 | 100 |
| Y Cynghorydd H. Jones | 5 | 100 |
| Y Cynghorydd S. Matthews | 3 | 60 |
| Y Cynghorydd H. Shepardson | 5 | 100 |
| Y Cynghorydd G. Thomas | 4 | 80 |
| Y Cynghorydd D. Thomas | 4 | 80 |
| **Dirprwyon** | **Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd** | |
| Y Cynghorydd M.J.A. Lewis | 1 | |
| Y Cynghorydd M. Charles | 2 | |
| Y Cynghorydd G. John | 1 | |
| Y Cynghorydd D. Cundy | 1 | |
| **Aelodau'r Cabinet** | **Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd** | |
| Y Cynghorydd E. Dole | 4 | |
| Y Cynghorydd L.D. Evans | 4 | |
| Y Cynghorydd M. Stephens | 4 | |
| Y Cynghorydd P.H. Griffiths | 5 | |
| Y Cynghorydd D. Jenkins | 2 | |
| Y Cynghorydd H. Evans | 2 | |
| Y Cynghorydd C. Campbell | 3 | |